

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Disgrifiadau o Rôl yr Aelodau sy'n Hyrwyddwyr

Diben y rôl

Bod yn hyrwyddwr dros y maes strategol, yn fewnol ac yn allanol, a meithrin dulliau o weithio mewn partneriaeth er mwyn hybu amcanion y Parc.

Beth ddylai Aelod sy'n Hyrwyddwr fod?

- Dylai fod yn eiriolwr neu'n llais ar ran y maes gwaith allweddol ar lefel strategol
- Dylai fod yn gyfathrebwr da
- Dylai fod yn frwdfrydig ynghylch ei bwnc, ond nid oes yn rhaid iddo fod yn arbenigwr
- Dylai fod yn gallu dangos arweinyddiaeth
- Dylai fod yn barod i weithio gyda'r swyddogion i ddatblygu partneriaethau newydd ar gyfer yr Awdurdod
- Dylai fod yn gallu canolbwyntio ar feysydd lle mae newid yn digwydd, a dylai fod yn gallu gweld y darlun mawr

Y meysydd lle ceir Aelodau sy'n Hyrwyddwyr

- Y Gymraeg
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Bioamrywiaeth a'r dirwedd
- Treftadaeth
- Cymunedau cydnerth
- Datblygu economaidd cynaliadwy
- Gwirfoddolwyr

Themâu trawsbynciol

Ym mhob un o'r meysydd lle ceir Hyrwyddwr, gofynnir i'r aelodau ystyried y canlynol a'u rhoi ar waith yng nghyswllt eu rôl:

- Ymgysylltu â'r cyhoedd: cyfleoedd o ran cyfathrebu, addysgu, dehongli, darparu gwybodaeth a gwasanaethau masnachol
- Cydnerthedd (incwm/adnoddau ariannol)
- Iechyd a lles
- Addysg a sgiliau
- Sicrhau bod popeth yn addas ar gyfer y dyfodol.

Yng nghyswllt pob rôl

Polisi strategol: Cyfrannu at ddatblygu polisi yn y maes strategol a bod yn barod i siarad â'r maes, yn fewnol ac yn allanol.

Cyfathrebu: Gofynnir i'r Aelodau sy'n Hyrwyddwyr adrodd yn ôl yn rheolaidd yng nghyfarfodydd yr Awdurdod a chyflwyno adroddiad blynyddol ysgrifenedig cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Darperir templed ar gyfer yr adroddiad blynyddol. Caiff yr aelodau eu hannog hefyd i rannu gwybodaeth am eu rôl ac am waith yr Awdurdod yn y maes dan sylw â chynulleidfa ehangach wrth i gyfleoedd godi. Gallai hynny gynnwys mynychu digwyddiadau cyhoeddus i lansio prosiectau, a digwyddiadau a chyfarfodydd allanol perthnasol.

Penderfyniadau a pherfformiad: Nid oes gan yr Aelodau sy'n Hyrwyddwyr bwerau i wneud penderfyniadau, ond cânt eu hannog i weithio gyda'r swyddogion i gyflwyno argymhellion i'r Awdurdod neu'r pwyllgor priodol fel y bo angen. Cânt eu hannog i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson am berfformiad ar sail nodau corfforaethol yr Awdurdod yn eu maes, ond ni ddylent herio perfformiad unigolion gan mai cyfrifoldeb rheolwyr llinell yw gwneud hynny. Er mwyn hybu'r rôl hon:

- a) **Gweithio gyda'r swyddogion:** Bydd yr Hyrwyddwyr yn y pedwar maes gwaith allweddol yn aelodau o'r gweithgor perthnasol ar gyfer swyddogion y pedwar maes gwaith allweddol er mwyn cael y manylion diweddaraf am brosiectau cyfredol, er mwyn cefnogi gwaith y swyddogion wrth iddynt bennu blaenoriaethau, ac er mwyn gwneud cyfraniad gwybodus i'r Fforwm Polisi;
- b) **Rôl yn y Fforwm Polisi:** Bydd yn ofynnol i'r Hyrwyddwyr fynychu holl gyfarfodydd y Fforwm Polisi er mwyn sicrhau eu bod yn ymwneud gymaint ag sy'n bosibl â'r gwaith o ddatblygu ac adolygu polisi yn eu maes nhw.

Gweithio mewn partneriaeth: Yn unol ag adran 62(2) Deddf yr Amgylchedd 1995, achub ar unrhyw gyfle i annog partneriaid i gefnogi dibenion y Parc, er mwyn meithrin partneriaethau a hybu dulliau o weithio ar y cyd.

Cyllid: Chwilio'n weithredol am gyfleoedd o ran cyllid yn y maes strategol, neu fod yn ymwybodol o unrhyw gyfleoedd o'r fath, a gweithio gyda'r swyddogion i symud y broses yn ei blaen.

Cynaliadwyedd: Sicrhau bod polisiau neu fentrau newydd yn gynaliadwy o safbwynt cyflawni nodau hirdymor y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Cydnabyddiaeth ariannol: Ni chaiff unrhyw lwfans ychwanegol ei gynnig ond bernir bod dyletswyddau Hyrwyddwyr yn ddyletswyddau cymeradwy at ddibenion hawlio costau teithio. Er hynny, gofynnir i'r aelodau geisio trefnu bod cyfarfodydd yn digwydd pan fyddant yn y swyddfa ar gyfer cyfarfodydd eraill. Gofynnir i'r Hyrwyddwyr gysylltu â'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd os hoffent fynychu digwyddiadau allanol i gefnogi eu rôl.

Ymddygiad: Bydd pob un o godau a phrotocolau cymeradwy'r Awdurdod yn berthnasol pan fydd yr Aelodau sy'n Hyrwyddwyr yn cyflawni eu rôl.

Cylch gorchwyl Hyrwyddwyr unigol

Y Gymraeg

- Hybu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg a monitro'r graddau y cydymffurfir â Safonau'r Gymraeg
- Cydweithio'n agos â Gweithgor y Gymraeg
- Mynychu unrhyw gyfarfod o'r gweithgorau ar gyfer swyddogion y pedwar maes gwaith allweddol fel y bo angen er mwyn hybu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

- Parhau i gyflawni camau gweithredu'n ymwneud â Thlodi Plant er mwyn lleihau anghydraddoldebau o ran cyfranogiad
- Parhau i ddatblygu a chyflawni camau gweithredu'n ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol er mwyn hybu cynhwysiant wrth i bobl fwynhau'r Parc Cenedlaethol a chael budd ohono
- Chwilio am gyllid a phartneriaethau allanol er mwyn cefnogi'r gwaith uchod
- Cynorthwyo'r Swyddog Adnoddau Dynol i ddatblygu polisi
- Mynychu unrhyw gyfarfod o'r gweithgorau ar gyfer swyddogion y pedwar maes gwaith allweddol fel y bo angen er mwyn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth

Bioamrywiaeth a'r dirwedd

- Cefnogi dulliau integredig o reoli tir er mwyn sicrhau gwelliannau i fioamrywiaeth a'r dirwedd
- Cefnogi'r Bartneriaeth Natur Leol a'r modd y mae'n datblygu ac yn gweithredu Cynllun Gweithredu Adfer Natur y Parc
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu dull gweithredu sy'n seiliedig ar ecosystemau, a sicrhau bod yr egwyddorion sy'n gysylltiedig â rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael eu rhoi ar waith wrth ddarparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau
- Hybu cyfraniad lleol a chenedlaethol Parciau Cenedlaethol i'r gwaith o warchod bioamrywiaeth a'r dirwedd a sicrhau manteision i'r cyhoedd
- Gweithio gyda thwristiaeth a meysydd gwaith allweddol eraill i weithredu'r egwyddorion sy'n gysylltiedig â rheoli ymwelwyr yn dda mewn modd integredig

Cymunedau cydnerth

- Datblygu a hybu cydnerthedd cymunedol drwy rymuso a galluogi budd cynaliadwy o'r dynodiad Parc Cenedlaethol
- Hybu'r gwaith o lunio a gweithredu Cynlluniau Lle
- Hybu iechyd a lles o'r dynodiad Parc Cenedlaethol er budd y gymuned ehangach yng Nghymru
- Hybu mynediad integredig i gefn gwlad er budd iechyd a lles
- Hyrwyddo'r gwaith o weithredu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Treftadaeth

- Codi ymwybyddiaeth o dreftadaeth adeiledig a diwylliannol y Parc a chyfrannu at ddealltwriaeth a mwynhad o'r dreftadaeth honno
- Hybu cyfraniad lleol a chenedlaethol Parciau Cenedlaethol i'r gwaith o warchod treftadaeth adeiledig a diwylliannol gan gynnwys ei gwerth economaidd
- Hybu'r gwaith o gyflawni prosiectau a mentrau a fydd yn gwella seilwaith a chyfansoddiad hanesyddol y Parc
- Annog y gwaith o ddatblygu Cynllun Treftadaeth yr Awdurdod
- Hybu'r berthynas sy'n datblygu'n barhaus rhwng treftadaeth ddiwylliannol a threftadaeth naturiol

Datblygu economaidd cynaliadwy

Gweithio gyda'r swyddogion i:

- Gyflwyno manteision economaidd newydd o'r dynodiad Parc Cenedlaethol i gymunedau lleol a'u busnesau, gan gynnwys hyfforddeiaethau, partneriaethau hyfforddiant busnes, gwaith a wneir mewn partneriaeth â chyrff adfywio, gwaith datblygu cynnyrch cynaliadwy a gwaith a wneir gyda ffermwyr i hybu cadwraeth
- Hybu'r gwaith o lunio a gweithredu Cynlluniau Lle
- Hybu a datblygu dull o ddatblygu twristiaeth gynaliadwy, sy'n seiliedig ar bartneriaethau, gan chwarae rhan lawn mewn unrhyw drefniadau gweithredu
- Defnyddio pŵer y dynodiad UNESCO ar gyfer Geo-parc i sicrhau budd i ardal orllewinol y Parc
- Grymuso busnesau a chymunedau i gael budd cynaliadwy o'r dynodiad Parc Cenedlaethol, yn enwedig trwy dwristiaeth a'r cynlluniau Llysgenhadon

- Hybu dulliau o reoli tir er budd cadwraeth a mynediad integredig i gefn gwlad er mwyn sicrhau manteision economaidd, gan ddefnyddio prosesau marchnata i rannu negeseuon am dwristiaeth gyfrifol a dulliau o reoli ymwelwyr

Gwirfoddolwyr

Gweithio gyda swyddogion i wneud y canlynol:

- Ei gwneud yn bosibl i Ddibenion a Dyletswydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gael eu cyflawni trwy wirfoddolwyr
- Cynorthwyo i ddatblygu cynllun priodol ar gyfer recriwtio, cynnwys, hyfforddi a chydabod gwirfoddolwyr, sy'n cynnwys gwaith gwerthuso a monitro
- Bod yn brif gyfrwng cyfathrebu rhwng gwirfoddolwyr a'r Aelodau, gan sicrhau bod yr Aelodau yn cael adolygiadau gwybodus am brofiadau gwirfoddolwyr gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Mynychu Grwpiau Maes Gwaith Allweddol yn ôl yr angen er mwyn cynorthwyo gwaith cyflawni gan wirfoddolwyr.